

Cyngor Cymuned Mæchell Community Council

COFNODION O GYFARFOD A GYNHALIWYD NÔS LUN 10/11/2014
MINUTES OF THE MEETING HELD ON MONDAY EVENING 10/11/2014

Presennol / Present

H Mary Hughes (Cadeirydd / Chair), Elin Wynne (Is-Gadeirydd / Vice Chair), Tony Jones, Elaine Rowlands, Richard Hughes, Jac Jones, Adrian Parry, Owen Mostyn Williams, Menna Owen, Helen Mai Beck (Clerc / Clerk)

1. Croesawu / Welcome

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.
The Chair welcomed everyone to the meeting.

2. Ymddiheuriadau / Apologies

Derbynwyd ymddiheuriadau gan Cyng. John Griffith a Cyng. Ken Hughes.
Apologies were received from Cllr. John Griffith and Cllr. Ken Hughes.

3. Trafodaeth ynglyn a materion Horizon / Discussion regarding Horizon matters.

Yn bresennol - Mr Dylan Williams (Pennaeth Gwasanaeth Adfywio Economiadd a Chymunedol) a Dr. John Idris Jones (Cyfarwyddwr Rhaglen Ynys Ynni).

Yn ymddiheuro - Mr Gareth Hall (Rheolwr Swyddfa Datblygiadau Ynni Mawr).

Cafwyd trafodaeth brŵd rhwng y Cynghorwyr Cymuned a'r gwesteïon mewn sesiwn holi ac ateb am datblygiadau Horizon. Awgrymwyd yn gryf y dylai y Cyngor Cymuned hwn ymateb i'r ddogfen ymgynghori. Penderfynwyd rhoi cyfle i plwyfolion rhoi eu barn hefyd. Penderfynwyd ail – gyfarfod ar y 18fed o Dachwedd 2014 i gasglu ac ysgrifennu ein ymateb er mwyn ei yrru erbyn y dyddiad terfyn 8fed o Rhagfyr 2014. Cynigiodd Mr Dylan Williams a Dr John Idris Jones eu cefnogaeth a'u cymorth os bu angen gyda'r ymateb. Awgrymwyd y dylai materion Horizon gael ei gynnwys ar agenda y Cyngor Cymuned ym mhob cyfarfod o hyn ymlaen.

In attendance - Mr Dylan Williams (Head of Service, Economic and Community Regeneration) and Dr. John Idris Jones (Director of the Energy Island Programme).

Apologies – Mr Gareth Hall (Major Energy Programme Delivery Manager)

A discussion took place between the Councillors and guests in a question and answer session regarding the Horizon developments. It was strongly suggested that the Community Council responded to the consultation document. It was decided also to give the residents a chance to voice their opinion. It was agreed to arrange a special meeting on the 18th November 2014 to collate responses and write a letter by the deadline of the 8th December 2014. Mr Dylan Williams and Dr John Idris Jones stated that they would support and advise if needed. It was suggested that Horizon matters be put on the Community Council's agenda in every meeting from now on.

4. Cofnodion / Minutes

Derbynwyd cofnodion cyfarfod 13/10/2014 fel rhai cywir. Cynigwyd gan Mr Tony Jones ac eilwyd gan Mr Jac Jones.

The minutes were accepted as a true record of the meeting on 13/10/2014. Mr Tony Jones proposed and Mr Jac Jones seconded.

5. Materion yn codi o'r cofnodion / *Matters arising from the minutes*

5.1 Eitem 5.3 – Mr Jac Jones wedi cysylltu efo unigolyn yn CSYM ynglyn a'r giât. Mi fydd rhywun yn mynd yno i edrych.

Item 5.3 – Mr Jac Jones has contacted an individual in IOACC regarding the gate. Someone will come and inspect.

5.2 Eitem 5.2 – Fe aeth Mr Owen Mostyn Williams i chwilio am y llwybrau penodol a darganfod eu bod wedi cau ers blynnyddoedd. Mae'r tirfeddianwyr yn fodlon cadarnhau hyn drwy lythyr.

Gweithred – Cysylltu â'r CSYM i adrodd yn ôl.

Item 5.2 – Mr Owen Mostyn Williams went to inspect the said footpaths and found that they had not been open for a number of years. The landowner is willing to write a letter to confirm this.

Action – Contact the IOCC to report back.

5.3 Eitem 5.1 – Nid oes neb wedi bod mewn cysylltiad a llifogydd Cae Rhun.

Gweithred – Ail gyysylltu â'r CSYM.

Item 5.1 – No one has been in contact regarding the floods at Cae Rhun.

Action – Contact the IOCC again.

5.4 Eitem 4.4 – Ail-gysylltu a'r CSYM.

Item 4.4 – Re-contact the IOACC.

6. Ffyrdd / *Highways*

6.1 Derbynwyd cŵyn ynglyn a llwybr Pencraig – angen ei dorri ond mae angen peiriant mawr.

Gweithred – Gofyn i Mr Sion Roberts.

A complaint was received regarding the Pencraig footpath – needs to be cut but requires large machinery.

Action – Ask Mr Sion Roberts.

6.2 Adroddodd y Cadeirydd bod angen gwaith ar y llwybrau cylchredol o amgylch y pentref.

Gweithred – Gofyn i Mr Carwyn Jones eu cerdded.

The Chair reported that work needs to be done on the circular walks around the village.

Action – Ask Mr Carwyn Jones to walk them.

6.3 Derbynwyd cŵyn ffyrdd:

- Bryn Difyr a Ffarm Pensarn – Oglâ a llifogydd.

- Sarn tuag at yr A5025 – Cyflwr gwael.

- Derbynwyd ail gŵyn ynglyn a traffig wedi ei barcio wrth Capel Jerwsalem. Ysgrifennu llythyr i'r perchennog.

- Datgelwyd gan Cyngorwyr Carreglefn bod yna llyn wedi ffurfio tu ôl i Stad Maes Merddyn.

Gweithred – Ysgrifennu llythyrau.

Complaints were received regarding roads:

- Bryn Difyr and Pensarn Farm – Smell and floods.

- Sarn towards the A5025 – Road in disrepair.

- A second complaint was received regarding the parked traffic by Jerusalem Chapel. A letter will be sent to the owner.

- The Carreglefn Councillors informed that a small lake has formed behind the Maes Merddyn estate.

Action – Write letters.

7. Gohebiaethau / *Correspondence*

7.1 Derbynwyd ebôst gan y CSYM ynglyn a 'Rhybydd o Estyniad Llwybr 34A Mechell'.

An email was received from the IOACC regarding 'Notice of Extension Footpath 34A Mechell'.

7.2 Derbynwyd ebôst ynglyn a diweddariad cronfa ar gyfer prosiectau cymunedol gwyrdd.

An email was received regarding a funding update for green community projects.

- 7.3 Derbynwyd ebôst ynglyn a digwyddiad briffio brecwast Horizon a gafodd ei gynnal ar y 3ydd o Dachwedd 2014.
An email was received regarding a Horizon Breakfast briefing event that was held on the 3rd November 2014.
- 7.4 Derbynwyd ebôst gan CSYM ynglyn a 'Rhybydd o Fwriad – Gwahardd Traffic Trwodd Dros Dro Amryw Leoliad Ynys Môn'.
An email was received from the IOACC regarding 'Notice of Intention – Temporary Prohibition of Traffic Various Locations Anglesey'.
- 7.5 Derbynwyd ebôst 'Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned – cyflwyniad'. Mr Tony Jones yn ymddiheuro na all fynychu y cyfarfod yma ar y 13/11/14.
An email was received 'Town and Community Councils Liaison Forum – presentation'. Mr Tony apologised that he would not be able to attend this meeting on the 13/11/14.
- 7.6 Derbynwyd ebôst gan Un Llais Cymru ynglyn â grantiau ar gael i gymunedau - £175,000 (Ffynhonnell Cymunedol yng Nghymru).
An email was received from One Voice Wales regarding grants available for communities – £175,000 (Community Foundation in Wales).
- 7.7 Derbynwyd ebôst gyda cylchlythyr Tachwedd 2014 Rhun ap Iorwerth AC.
An email was received from Rhun ap Iorwerth AC with his November 2014 newsletter.
- 7.8 Derbynwyd ebôst am nawdd ar gael rhwng £500 - £2000 gan Horizon.
An email was received regarding a Horizon Fund available between £500 - £2000.
- 7.9 Derbynwyd ebôst gyda Newyddlen Rhaglen Ynys Ynni (3/11/14).
An email was received with the Energy Island Programme Newsletter (3/11/14).
- 7.10 Derbynwyd llythyr gan *Airvolution* yn hysbysu am y 'Gronfa Budd Cymunedol Ysgellog – 2014' a gwybodaeth bod Adendwm tuag at Datganiad yr Amgylchedd wedi cael ei gyflwyno i'r CSYM.
A letter was received from Airvolution regarding the 'Ysgellog Community Benefit Fund 2014' and information that an Addendum to the Environmental Statement has been submitted to the IOACC.
- 7.11 Derbynwyd llythyr gan Un Llais Cymru yn hysbysu am gyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Môn a Chyfarfod Blynyddol y Pwyllgor a gafodd ei gynnal ar y 21ain o Hydref 2014. Fe wnaeth Mr Jac Jones a Mrs Mary Hughes yrru eu ymddiheuriadau nad oeddent yn gallu mynychu y cyfarfod.
A letter was received from One Voice Wales regarding the next meeting of the Anglesey Area Committee, together with the AGM which was held on the 21st October 2014. Mr Jac Jones and Mrs Mary Hughes could not attend the meeting and sent their apologies.
- 7.12 Derbynwyd llythyr gan RWE yn diolch am gefnogaeth y Cyngor Cymuned ac yn ein atgoffa bod angen cwblhau y ffurflen monitro ar lein erbyn y 15ed o Ebrill 2015.
A letter was received from RWE thanking the Community Council for their continued support and to remind us that the online monitoring form is to be completed by the 15th April 2015.

8. Biliau / Bills

- 8.1 Derbynwyd biliau gan / Bills were received from:
- AWJ Services (Torchau Coffa / Poppy Wreaths) - **£55.**
 - Hastings & Co (Rhent y Rhandiroedd – bil wedi ei dalu, angen ymchwilio / Allotments Rent – bill has been paid and needs to be checked) - **£30.**
 - Ad-dâl colled cyflog y Clerc am fynychu hyfforddiant Côt Ymddygiad / Reimbursement of the Clerk's loss of earnings for attending the Code of Conduct Training - **£48.60.**
 - Pheonix Direct (Ad-dâl i Mrs Mary Hughes am inc i'r argraffwr / Reimbursement to Mrs Mary Hughes for printer inks) - **£26.92.**

8.2 Derbynwyd arian gan / Monies received from:

- Beaufort Wind Limited (Cronfa Melinau Gwynt / Windmill Fund) - **£3564.65.**
- Ad daliad gan CSYM am gynnal a chadw llwybrau cyhoeddus / *Reimbursement from IOACC for upkeep and maintenance of public footpaths - £275.*

8.3 Llythyrau am gymorth ariannol / Letters requesting financial assistance:

- Y Rhwyd – Trafodwyd, penderfynwyd a cytunwyd i roi cymorth / *It was discussed, decided and agreed to assist - £50.*
- Pêl droed Cemaes – / *Cemaes Football Club* – Trafodwyd, penderfynwyd a cytunwyd i roi cymorth o Gronfa Melinau Gwynt / *It was discussed, decided and agreed to assist from the Windmill Fund - £100.*
- Canolfan Cymuned Carreglefn - Disgwyl am fantolen / *Awaiting a balance sheet.*

9. Cynllunio / Planning

9.1 Caerdegog Uchaf, Llanfechell (38EL1509/E) – Codi gwifren trydan uwchben y ddaear. Dim sylwadau.
Caerdegog Uchaf, Llanfechell (38EL1509/E) – Erection of an overhead electricity line. No comments.

9.2 Derbynwyd penderfyniad cynllunio:

- Hafodol Ganol Farm, Rhosgoch (38C60C). Caniatâd.

A planning decision was received:

- Hafodol Ganol Farm, Rhosgoch (38C60C). *Granted.*

10. Unrhyw fater arall / Any other matters

10.1 Cloc y Pentref – Oherwydd gwaeledd Mr West, mae Mr Jac Jones wedi bod yn weindio y cloc. Angen chwilio am unigolyn arall i weithredu.

Village Clock – Due to Mr West's ill health, Mr Jac Jones has been winding the clock. Need to find another individual to take over.

10.2 Farchnad Nadolig – Hysbysu y Cynghorwyr fod Menter Mechell yn cynnal Farchnad Nadolig ar y 7fed o Rhagfyr 2014 ynghyd a troi y Goleuadau Nadolig ymlaen.

Christmas Market – The Councillors were informed that Menter Mechell were holding a Christmas Market on the 7th December 2014 in conjunction with turning on of the Christmas Lights.

10.3 Fainc wrth y Cloc – Mae angen rhoi y fainc ynghlwm yn y llawr wrth ochr y cloc nid o'i blaen er mwyn parchu y rhai a gollwyd.

Bench by the Clock – The bench needs to be secured to the floor by the side of the clock not in front as mark of respect for the ones that were lost.

10.4 Postyn wrth Maes Martin – Derbynwyd cŵyn bod un o'r pŷst wedi gwisgo ac yn rhydd.

Gweithred – Angen pris i ail bacio y tarmac.

Post in Maes Martin – A complaint was received that one of the post's is loose and has worn.

Action – Obtain a price for repacking of tarmac.

11. Dyddiad y cyfarfod nesaf / Date of next meeting

Cyfarfod nesaf NOS LUN 12fed o Ionawr 2015 7 o'r gloch yn Ysgol Llanfechell.
Next meeting MONDAY 12th January 2015 at 7pm in Llanfechell School.

Arwyddwyd/Signed

Cadeirydd/Chairperson

Dyddiad/Date.....